# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## DYDD MAWRTH, 25 GORFFENNAF 2023

## IS-BWYLLGOR (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Griffiths, C.Furlow-Harris, S.Thomas, B.Dennedy, N.Blackmore, T.Rees a/ac T.Davies

**Cadeirydd Craffu:** Cynghorydd P.Rogers

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023 yn gofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023-24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Nid oedd unrhyw gwestiynau wedi cael eu derbyn.

7. **Y SWYDDFA GOFRESTRU – GWASANAETH Y GWEINYDDION**

Eglurodd swyddogion nad oedd unrhyw effeithiau wedi’u nodi yn yr Asesiad Effaith Integredig, felly dylai hyn fod wedi’i dicio fel ‘niwtral’, yn hytrach na ‘chadarnhaol’ neu ‘negyddol’, yn yr atodiad i’r adroddiad a ddosbarthwyd.

Croesawodd Aelod y Cabinet dros Gyllid y gwasanaeth newydd fel modd o greu incwm.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddechrau darparu gwasanaeth y gweinyddion ar gyfer gwasanaethau a gyflawnir yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

2. Cymeradwyo taliad o £200 fesul gwasanaeth gweinydd.

3. Cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Craffu’r Cabinet (Polisi ac Adnoddau) ar ddarpariaeth y gwasanaeth hwn yng ngwanwyn 2024.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Ehangu a gwella'r gwasanaeth drwy gynnig angladdau sifil, defnyddio'r prosesau a'r sgiliau sydd eisoes ar gael, gan gynnwys archebion, ymgysylltu â chwsmeriaid, cynllunio seremonïau a'u cyflwyno, gan ateb y galw cynyddol gan y gymuned leol.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEDDF YR EGLWYS YNG NGHYMRU CASTELL-NEDD PORT TALBOT – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022 – 23**

Cywirodd swyddogion wall teipograffyddol ar dudalen 31 o'r pecyn adroddiad a ddosbarthwyd – dylai llinell 2 o'r tabl ddarllen 'Bywoliaeth Reithorol Aberafan, Eglwys y Santes Fair' a '…gwaith adfer allanol i gynnal a chadw adeiladwaith yr adeilad'.

Mae llinell 3 o'r un tabl yn cyfeirio at ' Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Sardis', Resolfen.'

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

2. Cyflwyno'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol i Swyddfa Archwilio Cymru i'w harchwilio'n annibynnol.

3. Cyflwyno'r cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau, pe na bai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol drafft a'r datganiadau ariannol ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Deddf yr Eglwys yng Nghymru 2022 – 2023.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CYNLLUN PROSIECTAU BACH CYNGHORAU CYMUNED – CYNGOR CYMUNED Y CREUNANT**

**Penderfynwyd:**

Bod grant o 60% o'r costau gwirioneddol hyd at uchafswm o £12,000 tuag at gost y gwaith i adnewyddu a gwella maes chwarae i blant ar dir y

ganolfan gymunedol, yn cael ei ddyfarnu i Gyngor Cymuned y Creunant (ar ôl derbyn anfonebau a dalwyd ynghyd â chopi o gyfriflen banc).

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn caniatáu gwelliannau cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **CYNLLUN MÂN BROSIECTAU CYNGHORAU CYMUNED - CYNGOR CYMUNED DYFFRYN CLYDACH**

**Penderfynwyd:**

Bod grant o 50% o'r costau gwirioneddol hyd at uchafswm o £10,000 tuag at brynu a gosod offer TG, sefydlu swyddfa barhaol ar gyfer y Clerc a phrynu taflunydd ar gyfer y brif neuadd yn cael ei ddyfarnu i Gyngor Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach (ar ôl derbyn anfonebau a dalwyd ynghyd â chopi o gyfriflen banc).

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn caniatáu gwelliannau cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **CEISIADAU I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL**

**Penderfyniadau:**

1. Bod Ymddiriedolwyr Canolfan Dreftadaeth ac Ymwelwyr Pontardawe yn cael £2,600 y flwyddyn tuag at gost y rhent (sy'n cyfateb i tua 95% o'r rhent newydd), mewn perthynas â phrydles Canolfan Dreftadaeth ac Ymwelwyr Pontardawe, Pontardawe.

2. Bod y Groes Goch Brydeinig yn cael £1,000 i barhau i gefnogi pobl fregus, ar gyfer cefnogaeth gyffredinol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

3. Bod Ymddiriedolwyr Clwb Bowlio Bryn yn cael £575 y flwyddyn, tuag at gost y rhent (sy'n cyfateb i tua 95% o'r rhent newydd),

mewn perthynas â phrydles y Pafiliwn Bowls ym Maes Chwaraeon Bryn.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. **Y DIWEDDARAF AM Y GWAITH SY'N MYND RHAGDDO I GEFNOGI CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**